# Gwybodaeth am Ddiogelu Data - Myfyrwyr a Graddedigion

***Eich gwybodaeth bersonol a'r Prifysgol***

Bydd Prifysgol Aberystwyth, fel y rheolwr data, yn prosesu eich data personol yn unol â thelerau'r Deddf Gwarchod Data a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinnol. Ceir manylion cyswllt Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol yma.

***Defnydd a chadwraeth o'ch gywbodaeth***

Mae'r manylion personol a nodwyd gennych chi i'r Brifysgol yn cael eu defnyddio gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd i'n galluogi i gyfrannu'n effeithiol at y dysgu ar eich cwrs gradd ac i ddarparu gwasanaethau priodol a pherthnasol a fydd yn eich galluogi i ddatblygu eich sgilliau cynllunio a rheoli gyrfa. Defnyddir eich gwybodaeth i'r pwrpasau hynny sy'n gysylltiedig â'ch cefnogi chi i ddatblygu sgiliau a phrofiadau, ac i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i chi, a fydd yn eich galluogi i gystadlu yn effeithiol yn eich dewis o yrfa wedi ichi raddio.  Cediwr y wybodaeth hon gan y Brifysgol am ei fod o fewn diddordeb cyfiawn y Brifysgol i wneud hyn fel y gellir darparu budd i chi fel defnyddiwr o'n gwasanaethau, ac hefyd budd i'r Brifysgol i sicrhau fod cynllunio a rheoli gyrfa yn rhan anatod o brofiad myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.  Ceir manylion pellach ar Bolisi Gwarchod Data, Datganiad Prosesu Data yn ogystal â Hysbysiadau a Datganiadau perthnasol eraill y Brifysgol yma.

Gan fod y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn darparu gwasanaeth gydol oes i chi fel myfyriwr ac aelod o'n cymuned graddiedig, bydd eich data yn cael ei gadw ar ein cronfa ddata am gyfnod o 5 mlynedd wedi ichi raddio, neu 5 mlynedd o'r dyddiad diweddaraf cawson gysylltiad â chi, prun bynnag yw'r cyfnod hiraf, er mwyn cyflawni dibenion diddordeb cyfiawn y Brifysgol.

***Rhannu eich gywbodaeth***

Bydd eich manylion yn cael ei gadw mewn cronfa ddata a ddarperir gan GTI Media Cyf., system sydd hefyd yn rhoi'r cyfle i chi ddefnyddio ein gwasanaethau i'r eithaf wrth archebu lle ar-lein i weithgareddau megis: cyflwyniadau gan gyflogwyr ar y campws, cyfweliadau cyfarwyddyd cyfrinachol, amseriad sesiynau galw heibio, gweithdai sgiliau a phynicau eraill, yn ogystal â mynediad i gronfa ddata cyfleoedd a'ch cynlluniau gyrfa personol.  Cedwir eich gwybodaeth o fewn y system hwn yn ddiogel gan GTI Media Cyf. ar offer pwrpasol wedi ei leoli yn Llundain, DU, ac ni chaiff ei rhannu gydag unrhyw bartïon, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill.

Wrth gofrestru am ein gwasanaeth eFentora a gynigir ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yr ydych yn cytuno i'ch gwybodaeth gael ei dal ar system ddiogel Aluminati Network Group yn Reading, DU. Fe'i defnyddir i sicrhau fod defnyddwyr yn cadw at y canllawiau priodol ac i ddadansoddi data ystadegol di-enw at ddefnydd mewnol y Brifysgol yn unig.  Ni

chaiff eich gwybodaeth ei rhannu gydag unrhyw bartïon, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill.

Wrth gofrestru ar raglen GO Wales Cyflawni drwy Brofiad Gwaith rydych yn cytuno i'ch gwybodaeth gael ei chadw'n ddiogel ar system Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn Ne Cymru, DU. Wrth gael eich derbyn ar y rhaglen GO Wales mae CCAUC a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gweithredu fel y rheolwyr data am yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglen, gan rhoi sail gyfreithlon iddynt gasglu, prosesu a chadw eich data i sicrhau gallent gadw at oblygiadau cyfreithiol cynllun sydd wedi ei gyllido gan yr UE; o'r herwydd, nid oes gennych hawl i ofyn i'ch data gael ei ddileu. Bydd Prifysgol Aberystwyth, fel defnyddiwr y data, yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac ni chaiff ei rhannu gydag unrhyw sefydliad, barti neu asiantaeth arall ag eithrio CCAUC.

Wrth fanteisio ar weithgareddau a gynigir gan elfen AberPreneurs ein gwasanaethau ac wrth gofrestru ar weithdai a gweithgareddau cyffelyb, caiff eich gwybodaeth ei chadw gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar sail diddordeb cyfiawn. Wrth dderbyn cyngor a/neu fentora un-i-un ac wrth fynychu gweithdai datblygu busnes yr ydych hefyd yn cytuno i fod yn ran o prosiect Llywodraeth Cymru a gyllidir gan eu Strategaeth Entreprenwriaeth yr Ifanc. Mae cymryd rhan yn y gweithgareddau penodol hyn yn golygu bod rhai o'ch manylion yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru yn unol â thelerau ein cytundeb cyfreithiol gyda hwy. Ni rhennir eich gwybodaeth gydag unrhyw bartïon, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill ac fe'i ddefnyddir o fewn y Brifysgol i sicrhau gallwn eich cefnogi a'ch cynorthwyo yn unol â'ch gofynion wrth gysylltu ag AberPreneurs yn y lle cyntaf.

Ag eithrio'r sefyllfaoedd a nodir uchod, ni rhennir eich data gyda phartïon eraill nac asiantaethau allanol, oni bai ein gorfodir i wneud hynny yn unol â chyfreithiau a rheoliadau cydymffurfiaeth cyrff llywodraethol neu asiantaethau penodedig. Ni throsglwyddir eich gwybodaeth tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd.

***Eich hawliau***

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth, anghytuno gyda phrosesu eich data, neu godi cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.